

Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2016-2020 Atodiad 1



Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill.
Os bydd arnoch angen y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith
arall, ffoniwch 01267 234567.



Ynghylch Sir Gaerfyrddin

184,681 yw poblogaeth Sir Gaerfyrddin ar amcangyfrif a 78 o bobl i bob cilometr sgwâr yw ei dwysedd poblogaeth (cyfrif poblogaeth/arwynebedd mewn cilometrau sgwâr). 12.2% oedd canran y plant 0-15 oed (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2013) a 25.4% oedd canran y bobl o oedran ymddeol (65+ dynion, 60+ menywod). Mae gwybodaeth o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2014) yn dangos bod 2.6% o bobl o gefndir heb fod yn wyn a bod 83,900 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y sir.


Cyngor Sir Caerfyrddin fel Cyflogwr – hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gweithlu

Ble ydyn ni yn awr?


5,170 oedd cyfanswm y **cyflogeion** (ac eithrio cyflogeion a gyflogir gan ysgolion h.y. athrawon a staff cymorth) ar 31ain Mawrth 2014. Er mai 3% o holl boblogaeth Sir Gaerfyrddin yw hyn, rydym yn sylweddoli nad yw'r holl staff a gyflogir yn byw yn y sir. 51% o fenywod a 49% o ddynion yw cyfran y sir o ran y rhywiau. 66% o fenywod a 34% o ddynion yw cymhareb y gweithlu o ran y rhywiau. Mae arolwg staff 2014 yn dangos bod 35.3% (1,825) o'r 5,170 o gyflogeion wedi dweud nad oedd ganddynt unrhyw anabled, bod 4.8% (246) wedi dweud bod ganddynt anabled ond bod 59.9% (3,099) heb ddweud y naill ffordd neu'r llall a oes ganddynt anabled ai peidio.

Mae mwy na hanner y staff a gyflogir gan yr awdurdod, sef 56%, yn y grŵp oedran **25-49**, mae 3% yn y grŵp 16-24 oed ac mae 41% yn 50 oed neu'n hŷn. Dangosodd Arolwg Staff 2014 fod 55% o'r gweithlu'n gweithio amser llawn a bod y 45% arall yn gweithio rhan-amser.


Dangosir poblogaeth y sir a'r gweithlu yn ôl rhywedd yn y graff isod.



Mae'r mwyafrif o'r gweithlu rhwng 25 a 49 oed, sef 56% (2,897). Y grŵp oedran hwn yw'r gyfran fwyaf yn y sir hefyd. 126,345 yw cyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin sydd rhwng 16 a 70 oed, ac o'r rhain mae 43% (54,076) rhwng 25 a 49 oed.



Rhwng 1af Ebrill 2014 a 30ain Ebrill 2015 mae 341 o aelodau o'r staff wedi cwblhau modiwl dysgu ar-lein **Arddel Amrywiaeth** ac mae 215 o aelodau o'r staff wedi cwblhau'r modiwl dysgu ar-lein **Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**.



Mae ffigurau o **Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2014** yn dangos, o'r 183,300 o bobl a holwyd, bod 97% (177,800) wedi dweud eu bod o gefndir gwyn o gymharu â'r 2.6% (4,700) a ddywedodd eu bod o gefndir heb fod yn wyn. Ni ddatgelodd 0.4% (800) eu cefndir. Mae'r arolwg cyflogaeth yn dangos, o'r rhai a nododd eu hethnigrwydd, mai Gwyn oedd y gyfran fwyaf, sef 4,721 (91%) a bod lleiafrif sylweddol o 403 (7.8%) heb ei ddatgelu. Ymysg y grwpiau eraill (Asiaidd, Du, Cymysg ac eraill) roedd niferoedd a chanrannau'r cyflogaeth yn is nag ym mhoblogaeth ehangach Sir Gaerfyrddin, ond gan fod y gwahaniaethau canrannol yn llai nag 1%, nid yw hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.

Mae'r ffigurau o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod 43.9% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg a bod gan 58% un sgil neu ragor yn yr iaith. Mae'r data ar gyfer y gweithlu'n dangos bod 37% o'r cyflogaeth yn gallu siarad Cymraeg a bod gan 34% sgiliau ysgrifenedig yn yr iaith. O'r 7,766 o ymatebion a gafwyd, ni roddodd 63% unrhyw wybodaeth o dan y cwestiwn am y Gymraeg.

Dywedodd 4.8% (246) o'r cyflogaeth eu bod yn anabl. Diffinnir unigolyn fel person anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar ei allu i ymgymryd â gweithgareddau dyddiol arferol.

Cyngor Sir Caerfyrddin fel darparwr gwasanaethau

Mae gan bawb hawl i fod mor iach ag sy'n bosibl. *"the enjoyment of the highest attainable standard of health is one of the fundamental rights of every human being without the distinction of race, religion, political belief, economic or social condition"*. (Cyhoeddiad Sefydliad Iechyd y Byd, 'The Right to Health', Fact Sheet 323, Awst 2007). Fodd bynnag, mae'n amlwg bod ffactorau economaidd gymdeithasol fel incwm, tai a mynediad i wasanaethau iechyd yn cael dylanwad mawr ar iechyd pobl.

Ble ydyn ni yn awr?

Ym mis Mawrth 2013 cafodd Rhaglen y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA) ar gyfer adeiladau nad ydynt yn ysgolion sy'n agored i'r cyhoedd ei chwblhau'n llwyddiannus. Daeth y cyllid ar gyfer y rhaglen i ben yn 2012/13. Ar 31ain Mawrth 2013 roedd 89% o adeiladau'r awdurdod sy'n agored i'r cyhoedd (ac eithrio ysgolion) yn cael eu hystyried yn addas ac yn hygyrch i bobl anabl.

Gan fod mwy na dwy flynedd wedi mynd heibio, mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod wedi newid yn sylweddol oherwydd gwahanol newidiadau, fel trosglwyddo asedau, defnydd o adeiladau, darparwyr gwasanaethau a'r ffordd maent yn darparu a rheoli eu gwasanaethau, newidiadau mewn rheoliadau adeiladu ac ati. Byddai angen archwiliad newydd i gadarnhau'r sefyllfa ddiweddaraf.

Cafodd canolfannau cyswllt yr awdurdod 434,486 o gysylltiadau yn ystod 2014/2015. Mae hyn yn cynnwys 293,986 o gysylltiadau dros y ffôn, 22,350 electronig ac 118,150 wyneb yn wyneb.

Mae'r awdurdod yn bartner yng **Ngwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru** (WITS). Mae'r corff hwn yn "siop un stop" sydd wedi'i fwriadu i wella gallu pobl fregus nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae WITS yn galluogi'r Awdurdod i fanteisio ar wasanaeth cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd hyfforddedig ac achrededig sydd wedi'u fetio'n llawn at ddibenion diogelwch, mewn oddeutu 135 o ieithoedd. Gwnaeth yr Awdurdod 168 o geisiadau i'r gwasanaeth hwn yn ystod 2012/13, 2013/14 a 2014/15. Roedd y mwyafrif o'r rhain (70%) mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau am gyfieithwyr ar y pryd (80% o'r ceisiadau) ac roedd y gweddill yn geisiadau am gyfieithu ysgrifenedig. O ran yr ieithoedd y gofynnwyd amdanynt, roedd y prif alw am Bwyleg (54%), wedyn Pashto (12%), Cantoneg (7%), Fietnameg (7%). Yr ieithoedd eraill y gofynnwyd amdanynt oedd Mandarin, Bengali, Cwrdeg, Somali ac, i raddau llai, Twrceg, Sbaeneg, Wrddw, Bwlgareg ac Iaith Arwyddion Prydain.

Yn y 4 blynedd ariannol ddiwethaf, rydym wedi ei gwneud yn bosibl datblygu 260 o gartrefi fforddiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys cartrefi ar gyfer perchentyaeth cost isel gyda datblygwyr preifat; cartrefi ar rent gan gymdeithasau tai ac, yn y flwyddyn ddiwethaf, 12 cartref a adeiladwyd gan y Cyngor. Erbyn hyn mae cynllun cartrefi fforddiadwy'n cael ei lunio i sicrhau y darperir cynifer o gartrefi fforddiadwy ag sy'n bosibl o bob ffynhonnell.

Cyngor Sir Caerfyrddin oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i atal yr Hawl i Brynu cartrefi'r Cyngor a chymdeithasau tai, fel na fydd unrhyw gartrefi newydd a ddatblygir yn cael eu colli o'r stoc. Rydym yn parhau i hybu perchentyaeth fforddiadwy ac yn rhoi blaenoriaeth i denantiaid y Cyngor a chymdeithasau tai yn hyn o beth. Pan gaiff y cartrefi hyn eu gwerthu, maent yn dal i fod yn fforddiadwy gan y cânt eu gwerthu i berchnogion newydd sydd ag angen o ran tai ar yr un sail â'r perchnogion gwreiddiol.

Mae gan y Gwasanaeth Cyngor / Dewisiadau Tai ran bwysig i'w chwarae yn nhermau cefnogi byw'n annibynnol a darparu atebion o ran tai i bobl anabl. Mae'r gwasanaeth wedi'i gydleoli gyda Gofal a Thrwsio ac yn gweithio mewn partneriaeth ag ef.

I grynhoi :

- Rydym yn addasu cartrefi preifat i ddiwallu anghenion y perchnogion.
- Rydym yn cynorthwyo perchnogion cartrefi trwy broses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u helpu i ddod o hyd i adeiladwr addas.
- Rydym yn rheoli'r Gofrestr Tai Hygyrch ac ynparu cartrefi wedi'u haddasu sy'n eiddo i'r cyngor â thenantiaid y mae arnynt eu hangen er mwyn byw'n annibynnol.
- Rydym yn darparu cyngor a chymorth i'r henoed am gynnal a chadw eu cartrefi ac addasiadau iddynt.

Chwaraeon a Hamdden

Chwaraeon i bobl anabl

Mae swyddog Chwaraeon Anabledd Cymru rhan-amser yn gweithio gydag aelodau o'r staff a phartneriaid perthnasol i ehangu'r ystod o gyfleoedd o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl ag anabledd ac i hybu'r cyfleoedd presennol i ddenu mwy o bobl i gymryd rhan.

Mae'r swyddog yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon sy'n bodoli eisoes i helpu i sicrhau y gellir cynnwys pobl anabl.

Hefyd, rydym yn darparu grant Perfformio Chwaraeon Anabledd sydd ar gael i unrhyw athletwr unigol sy'n cynrychioli Cymru i wneud cais am gyllid i helpu â chost ariannol cystadlu a hyfforddi.

Mae nifer y cyfleoedd chwaraeon yr ydym yn eu hwyluso'n dal i gynyddu'n sylweddol, gan sicrhau mwy na 300,000 o fynychiadau yn 2014/15 am y tro cyntaf gan effeithio ar bartneriaethau, y gweithlu a chyfranogwyr. Gyda swyddogion yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol i gydgyssylltu chwaraeon i bobl anabl, rygbi, chwaraeon dŵr, hoci, Campau'r Ddraig a 5x60, darperir ystod amrywiol o gyfleoedd i'r sir. Ynghyd â hyn, mae mwy na 1,000 o ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal gyda phartneriaid, clybiau a sefydliadau bob blwyddyn er mwyn creu a gwella cyfleoedd o ran chwaraeon.

Mae Campau'r Ddraig a '5x60' yn fentrau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i helpu i greu'r amgylchedd angenrheidiol i blant gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol allgyrsiol yn rheolaidd. Mae'r holl ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig wedi ymrwymo i'r rhaglenni, ac rydym yn mynd ati i weithio gydag unrhyw unedau arbennig mewn ysgolion prif ffrwd, naill ai gan ddarparu sesiynau yn benodol i ddisgyblion yn yr unedau hynny neu drwy eu hintegreiddio i sesiynau prif ffrwd. Mae pecynnau ac adnoddau hyfforddiant cysylltiedig yn ymgorffori 'sut i gynnwys disgyblion ag anabledau' ac felly'n hybu cynhwysiant.

Mae nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn benodol i bobl o **bob oed o blant i oedolion hŷn ag anghenion arbennig, gan ddarparu ar gyfer amrywiaeth mawr o anabledau a phroblemau meddygol gan gynnwys anawsterau dysgu**. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys galâu nofio, gwyliau pêl-droed, gwyliau athletau a grwpiau cerdded.

Ym mis Medi 2011, parhaodd yr adran i gyflwyno cynllun 'Llysgenhadon Ifanc', lle mae disgyblion ysgol yn cael eu dewis fel modelau rôl i ysbrydoli eu cyd-ddisgyblion i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Erbyn hyn mae gan bob un o ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd y sir, a mwy na hanner ei hysgolion cynradd, Llysgenhadon Ifanc sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n cael effaith gadarnhaol, gan ddarparu gweithgareddau a chefnogi rhaglen Campau'r Ddraig mewn cystadlaethau pêl-droed, rygbi a hoci, cyrsiau tennis ac athletau, hyfforddiant cynnwys pobl ag anabledau a galâu nofio.

Nifer y mynychuadau:

2011/12: 225,207

2012/13: 206,201

2013/14: 244,317

2014/15: 300,548

Ymyrraeth dargededig

Sefydlwyd Grŵp Iechyd Chwaraeon a Hamdden strategol i asesu'r ymyriadau yn ystod bywydau pobl ar adegau pan brofir eu bod yn mynd yn afiach neu fod ganddynt anghenion iechyd penodol, neu pan ydynt mewn perygl o fynd yn afiach. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar gynnwys pobl ag anableddau ac ardaloedd o amddifadedd.

Cynnwys pobl ag anableddau:

Dyfarnodd Chwaraeon Anabledd Cymru achrediad 'Rhuban' inni yn 2013 am ein darpariaeth Chwaraeon a Hamdden gynhwysol ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio i gael achrediad Efydd. Mae ein Swyddog Chwaraeon Anabledd yn gweithio gyda chlybiau a sefydliadau yn y gymuned er mwyn iddynt gynnwys pobl ag anableddau, ac maent yn cael achrediad clwb 'InSport' i gydnabod hyn.

Yn unol â hyn, mae rhaglen flynyddol o gyrsiau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd a Chynnwys Pobl ag Anableddau wedi cael ei darparu i aelodau o'r staff a gwirfoddolwyr, gydag arian gan Chwaraeon Cymru.

Mae'r **Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff** yn gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru i safoni cyfleoedd i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff ar draws yr holl Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn targedu cleientiaid sydd â chlefyd cronig neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cronig. Prif nodau'r Cynllun yw cynnig Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff o ansawdd da ledled Cymru, sicrhau bod cleientiaid yn parhau i gyflawni gweithgarwch corfforol yn fwy yn y tymor hir, gwella iechyd corfforol a meddyliol cleientiaid a chanfod pa mor effeithiol yw'r ymyriad o ran codi lefelau gweithgarwch a gwella iechyd.

Mae staff Chwaraeon a Hamdden yn cael mwy na 1200 o atgyfeiriadau'r flwyddyn yn gyson, ac yn darparu rhaglen gweithgarwch arbenigol o ansawdd da sy'n sicrhau amrywiaeth enfawr o fuddion i'r cleientiaid.

Cist Gymunedol

Rydym yn gyfrifol am ddsbarthu grant blynyddol o ryw £100,000 i alluogi clybiau a sefydliadau chwaraeon i gynyddu a/neu wella darpariaeth chwaraeon yn y gymuned. Erbyn hyn rydym wedi rhannu'r dyraniad hwn er mwyn sicrhau y caiff o leiaf 20% ei rhoi i brosiectau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gyda phwyslais ar fenywod a merched, anabledd, tlodi a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2014/15, rhoddwyd 30% o'r grant o £107,000 i brosiectau o'r fath.

Arolwg Chwaraeon Ysgolion

Cynorthwyodd Swyddogion Chwaraeon a Hamdden ysgolion y sir er mwyn iddynt gymryd rhan yn arolwg cenedlaethol Chwaraeon Cymru 2013 i gael adroddiad ar les eu disgyblion. O ganlyniad cafodd yr holl ysgolion uwchradd a 43 o'r ysgolion cynradd adroddiad, gan alluogi 'llais y disgyblion' i lywio'r ddarpariaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned yn y dyfodol.

Mae Sir Gaerfyrddin, ynghyd â'i gyd-awdurdodau yn y rhanbarth, wedi cyflwyno fframwaith cynllunio camau gweithredu er mwyn ymateb i'r data a'r negeseuon sy'n deillio o'r adroddiadau.

Gan fod y broses yn cael ei hailadrodd bob 2 flynedd, mae swyddogion yn cynorthwyo ysgolion at yr un diben yn 2015.

- Cyflwynwyd cynllun 'Hyrwyddwyr y Gymraeg' mewn cyfleusterau hamdden, gan weithio tuag at hyrwyddo a darparu gwersi nofio a sesiynau cynefino ffitrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Darparwyd nofio am ddim i blant ac oedolion dros 60 oed yn yr holl byllau nofio, gyda'r rhaglen yn cael ei chysylltu â llwybr Dysgu Nofio Cymru.

Mae ein cyfleusterau a'n gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda ac yn effeithlon:

- Sicrhaodd Cartref Dylan Thomas, Oriel Myrddin a'r Gât statws **Achrediad Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr** (VAQAS).
- Mae mwy na 95% o ddefnyddwyr ein llyfrgelloedd yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth maent yn ei gael (2012/13: 91%)
- Cafodd pob un o bum amgueddfa Sir Gaerfyrddin achrediad.
- Mae gorchuddion pyllau nofio wedi cael eu gosod er mwyn cynyddu effeithlonrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin (amcangyfrifir y bydd yn gostwng costau cyfleustodau mwy na £10,000 bob blwyddyn)
- 35% (targed 38%) oedd canran hyd yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd i'r cyhoedd ei defnyddio, sy'n dangos gwelliant, er bod hyn yn dal i fod mewn chwarterl is ar gyfer Cymru
- Mae 12 gorchymyn cyfreithiol, gan gynnwys Gorchmynion Gwyro/Addasu Mapiau Diffiniol a Rheoleiddio Traffig, wedi cael eu cwblhau.
- Ymdriniwyd ag 20 mater cyfreithiol gan gynnwys rhwystrau.

Mae'r gwaith o ddatblygu ac addasu'r system TG Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS) wedi parhau. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Parcmy'n yn gallu tirlfesur llwybrau gyda dyfeisiau tirlfesur a ddelir yn y llaw a chofnodi'r gwaith hwn yn electronig.

Cydnabuwyd perfformiad sy'n arwain y sector trwy ennill gwobr ranbarthol 'Gorau lechyd' am ein prosiect partneriaethol oedd yn canolbwyntio ar y continwwm ymarfer corff i oedolion hŷn eiddil.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae cyfran yr oedolion a'r plant nad ydynt yn cadw pwysau corff iach yn cynyddu. Mae data o Arolwg lechyd Cymru 2012 yn dangos bod canran yr oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew wedi codi i 60%. Dywedodd y Rhaglen Mesur Plant 2014 wrthym fod 27.3% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu'n ordew.

Yn ystod mis Mai 2015 cafodd tair Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid y cyngor a'r Ganolfan Gyswllt fwy na 31,000 o ymholiadau gan gwsmeriaid. O'r rhain cafwyd 20,791 dros y ffôn i'r Ganolfan Gyswllt, a chafwyd 10,370 wyneb yn wyneb yn y tair Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid (un ym mhob un o'r tair prif dref sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman).

Yn ystod y mis cynhaliwyd arolwg i gofnodi data cydraddoldeb er mwyn rhoi amcangyfrif o gyfran y cysylltiadau a gafwyd o'r categorïau yn yr arolwg, h.y.

	Canolfan Gyswilt	%	Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid	%
Rhyw	Gwryw	30.62	Gwryw	43.00
	Benyw	69.38	Benyw	56.00
	Ddim eisiau dweud	0	Ddim eisiau dweud	1.00
Oed	O dan 16	0	O dan 16	1
	17-27	4	17-27	18
	26-35	16	26-35	53
	36-45	13	36-45	16
	46-55	17	46-55	18
	56-65	20	56-65	11
	65+	28	65+	14
	Ddim eisiau dweud	1	Ddim eisiau dweud	1
Statws partneriaethol	Sengl	28	Sengl	38
	Priod	45	Priod	31
	Wedi gwahanu	4	Wedi gwahanu	8
	Wedi ysgaru	9	Wedi ysgaru	10
	Partner sifil	1	Partner sifil	5
	Ddim eisiau dweud	0	Ddim eisiau dweud	3
	Gweddw	9	Gweddw	3
	Yn cyd-fyw	5	Yn cyd-fyw	1
Anabl	Ydy	33	Ydy	24
	Nac Ydy	64	Nac Ydy	74
	Ddim eisiau dweud	3	Ddim eisiau dweud	2
Yn dal crefydd neu gred	Ydy (Eglwys Lloegr, Cristion, Catholig, Bedyddiwr, Eglwys yng Nghymru)	32	Ydy (Eglwys Lloegr, Cristion, Catholig, Bedyddiwr, Eglwys yng Nghymru)	32
	Nac ydy	65	Nac ydy	57
	Ddim eisiau dweud	3	Ddim eisiau dweud	11
Grŵp ethnig	Gwyn	99	Gwyn	93
	Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	1	Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	2
	Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	0	Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	1
	Cymysg / Nifer o grwpiau ethnig	0	Cymysg / Nifer o grwpiau ethnig	1
	Ddim eisiau dweud	0	Ddim eisiau dweud	2
	Arall	0	Arall	0

Mae'r Llinell Gofal yn darparu system 'llinell uniongyrchol / larwm' i filoedd o unigolion ledled Sir Gaerfyrddin. Mae rhai o'r unigolion hyn yn prynu'r gwasanaeth yn breifat, ac mae eraill yn cael presgripsiwn Teleofal a, thrwy hynny, y llinell uniongyrchol / larwm, trwy asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan yr unigolion bendant a/neu synwryddion sydd, o'u rhoi ar waith, yn cysylltu â chanolfan y Llinell Gofal yn Llandeilo. Yna mae'r swyddog sy'n cael yr alwad yn gallu gwirio a yw'r unigolyn yn iawn neu a oes angen cymorth arno ac yna gall gysylltu â'r aelod priodol o'r teulu neu'r gwasanaeth priodol i drefnu ymateb fel bo'n briodol. Gall y gwasanaeth gynorthwyo unigolion i fyw yn eu cymunedau ac mae'n rhoi tawelwch meddwl i ofalwyr anffurfiol ac aelodau o'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer unigolion sydd ag anabledd neu nam synhwyraidd ac mae ar gael yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ystod 2014/15 cafodd 631 o gleientiaid ag anabledd dysgu rhwng 18 a 64 oed gymorth. O'r nifer hon mae 553 (87.6%) yn cael eu cynorthwyo yn y gymuned. Mae'r ffigur hwn yn dangos faint sy'n cael eu cynorthwyo trwy'r awdurdod. Mae'n bosibl bod y ffigur yn uwch oherwydd nad yw rhai pobl yn gofyn am y cymorth neu nad oes angen y cymorth arnynt.

Mae **Canolfannau Plant Integredig** yn rhwydwaith o wasanaethau i gynorthwyo plant rhwng 0 ac 14 oed a'u teuluoedd, gan ddarparu gwasanaethau integredig addysg, gofal plant, cymorth i deuluoedd, chwarae ac iechyd, er mwyn gwella deilliannau i blant a'u teuluoedd. Mae gan Sir Gaerfyrddin dair canolfan yn **y Morfa, Felin-foel a Llwynhendy**. Ceir yn yr ardal ddiweithdra uchel, llawer o dai cymdeithasol a llawer o deuluoedd ag incwm isel ac mae ymysg yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. Er mai'r Gwasanaethau Plant sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y tair canolfan, maent yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, iechyd, Dechrau'n Deg, CYCA, CAVS, Cylch Meithrin Felin-foel a Phlant Dewi sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol ym Morfa a Felin-foel. Bydd pob Canolfan yn ymateb i anghenion y gymuned ac felly mae'n bosibl y bydd pob un yn cynnig darpariaeth wahanol.

Ar gyfartaledd mae 22 marwolaeth trwy hunanladdiad bob blwyddyn, ac mae 82% o'r rhain yn wrywod. Mae'r gyfradd marwolaethau i wrywod yn Sir Gaerfyrddin yn uwch na chyfartaledd Cymru ac wedi aros yn weddol sefydlog. Mae'r gyfradd hunanladdiadau gyffredinol i wrywod tua 16% yn uwch na'r gyfradd i fenywod.

Mae marwolaethau cyn 75 oed wedi cael eu safoni yn ôl oedran i greu mesur marwoldeb – y Gyfradd Marwolaethau Oed-safonedig Ewropeaidd (EASR). Mae'r EASR i Sir Gaerfyrddin wedi dangos tuedd gyffredinol ar i lawr ac mae'r gyfradd ar gyfer 2008-2010 19% yn is nag ar ddechrau'r degawd.

Yn 2012-13 cafwyd ychydig mwy na 9,600 o dderbyniadau i ysbytai'r GIG yng Nghymru am 'hunan-niwed bwriadol neu ddigwyddiad â bwriad ansicr'. Nid oes un rheswm pam y bydd rhywun yn ceisio lladd ei hun, ond mae rhai ffactorau'n gwneud hunanladdiad yn fwy tebygol. Er enghraifft, mae hunan-niwed blaenorol yn ffactor risg allweddol, salwch meddwl yn ogystal â chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Hefyd, mae anweithgarwch economaidd ac unigrwydd yn ffactorau risg cydnabyddedig. Ym mis Mawrth 2014, cynhyrchodd Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad thematig yn edrych ar hunanladdiadau ymysg plant a phobl ifanc a gwnaeth argymhellion i leihau hunanladdiad yn y grŵp oedran hwn gan gynnwys: sicrhau y gweithredir canllawiau NICE yn briodol er mwyn rheoli hunan-niwed yn effeithiol, datblygu cofrestr amddiffyn plant i Gymru gyfan, cyfyngu ar y gallu i gael alcohol ac adolygu'r cynnydd o ran atal hunanladdiad bob tair blynedd.

Mae "Siarad â Fi" (2009), cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i leihau hunanladdiad a hunan-niwed, yn dod i ben eleni ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed i ddatblygu strategaeth i'w olynu.

Cyngor Sir Caerfyrddin fel arweinydd cymunedol – yn hybu goddefgarwch a pharch yn y gymuned ehangach

Ble ydyn ni yn awr?

Canfu ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar aflonyddu ar sail anabledd yng Nghymru o'r enw "O'r golwg yng ngolwg pawb":-

- Mai dim ond nifer fach o achosion oedd wedi'u cofnodi, nad yw llawer o bobl anabl yn rhoi gwybod am aflonyddu ac maent yn credu ei fod yn rhywbeth mae'n rhaid iddynt ei oddef.
- Nad yw pobl anabl yn siŵr sut i roi gwybod am aflonyddu neu maent yn meddwl na fydd neb yn gwrandao arnynt nac yn eu credu.
- Bod gwasanaethau cyhoeddus a phobl eraill yn meddwl weithiau nad yw aflonyddu o'r fath yn digwydd.
- Nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn sylweddoli pa mor ddifrifol yw aflonyddu i bobl anabl ac nad ydynt yn gwneud unrhyw ymgais i'w atal.
- Cyn cael gwared ar aflonyddu ar bobl anabl, mae angen i'r ffordd mae pobl yn meddwl amdanynt ac yn eu cynnwys yn ein cymdeithas newid.

Un o'r rhesymau mae'r ymchwiliad yn meddwl y mae hyn yn digwydd yw oherwydd bod gwasanaethau cyhoeddus yn edrych ar bob un achos o aflonyddu yn lle cydweithio i gael gwybod a yw'n digwydd yn amlach i rai pobl benodol neu mewn rhai lleoedd penodol. Mae'r adroddiad yn nodi 6 pheth y dylai cyngorau a sefydliadau lleol eraill eu gwneud i helpu i gael gwared ar yr aflonyddu hwn:-


- Cydweithio i atal aflonyddu ar bobl anabl a thrin pobl anabl yn deg
- Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i bob gwasanaeth cyhoeddus wneud hyn ond canfuwyd nad oedd llawer o wasanaethau'n cydweithio'n dda
- Gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn gwybod sut i roi gwybod am aflonyddu
- Gwneud yn siŵr bod gan bobl anabl gymorth da o ran eiriolaeth
- Gwirio bod gwasanaethau'n rhoi'r cymorth iawn i bobl anabl pan maent yn rhoi gwybod am aflonyddu
- Gwneud yn siŵr bod eu staff wedi'u hyfforddi am aflonyddu ar bobl anabl a'u bod yn gwybod sut i ddelio ag ef.

Yng Nghymru mae llawer o bobl yn dweud eu bod yn profi camwahanïaethu, aflonyddu a chamdriniaeth. Mae tua 10% o'r boblogaeth yn gyfan wedi profi enghraifft o gamwahanïaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf. Mae rhai grwpiau fel pobl ifanc, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl drawsryweddol, pobl â chyflyrau iechyd meddwl a phobl hŷn yn rhoi gwybod am lefelau llawer uwch o gamwahanïaethu ac aflonyddu – dywedodd hyd at draean o'r holl bobl anabl 16-39 oed eu bod wedi dioddef camwahanïaethu neu aflonyddu. (Ffynhonnell: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Pa mor deg yw Cymru?" – Cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthynas dda Mawrth 2011 tudalen 18)


Mae Cymorth i Ddioddefwyr mewn partneriaeth â **Stonewall Cymru** wedi lansio gwasanaeth newydd yng Nghymru i helpu dioddefwyr a thystion i droseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd i gael y cymorth emosiynol ac ymarferol y mae wir ei angen arnynt. Mae hyn wedi cael ei gynorthwyo gan werth £50,000 o gyllid oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r cymorth yn cael ei deilwra i gyd-fynd ag anghenion pobl a gall gynnwys cyngor ar ddiogelwch personol, a gwybodaeth am sut i ymdrin ag asiantaethau cyfiawnder troseddol. Bydd staff a gwirfoddolwyr yn y Gwasanaeth Tystion yn cynorthwyo dioddefwyr a thystion drwy gydol yr achos, gan helpu'r rheiny sy'n teimlo'n agored i niwed, neu eu bod yn cael eu bygylyu, i gael mesurau arbennig

yn y llys. Yn ddiweddar cafodd Cymorth i Ddiodefwyr ei gynnwys ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ac roedd yn y 92fed safle o'r 100 Cyflogwr Gorau ym Mhrydain ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn 2010.

Mae Stonewall Cymru wedi casglu rhai ystadegau ar riportio ac achosion llwyddiannus ar 'Droseddau Casineb' (Ystadegau Troseddau Homoffobaidd yr Heddlu) ac (Ystadegau Troseddau Casineb Gwasanaeth Eryl y Goron). Mae'r ffigurau'n dangos 78% o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau yn Sir Gaerfyrddin o 2010-2012.



Mae Heddlu Dyfed Powys yn casglu a chofnodi data ar **ddigwyddiadau trosedd casineb** (gan gynnwys anabledd, heteroffobaidd, homoffobaidd, ar sail anrhydedd, hiliol, crefydd/ffydd a thrawsffobaidd). Mae'r ffigurau ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn dangos 2.3% o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau o'r fath y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod 2014.



Mae Deddf Tai Cymru wedi creu gofyniad i bob Awdurdod gyflawni Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn y flwyddyn hon i gael ei gwblhau erbyn canol mis Chwefror 2016. Bydd yr Asesiad yn cael ei seilio ar yr un meini prawf ar draws yr holl Awdurdodau ac ar ôl iddo gael ei gwblhau bydd yn bwydo i'n Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr newydd, a fydd wedyn yn cael ei diweddarau gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ofyniad ac argymhellion. Bydd yna ofyniad i geisio ymgynghori â'r holl deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr y gallwn eu hadnabod yn ardal yr Awdurdod.

Mae gan y sir **116 o ysgolion**; 12 ysgol uwchradd a 2 ysgol anghenion dysgu ychwanegol sef Heol Goffa, Llanelli a Rhyd-y-gors yng Nghaerfyrddin, a 102 o ysgolion Babanod/lau a Meithrin, a hefyd un Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae **1,510 o lywodraethwyr ysgolion** yn cael eu cynorthwyo gan yr awdurdod yn eu rolau.

Mae ffigurau data CYBLD 2015 a gesglir bob blwyddyn o'r holl ysgolion yn y sir yn dangos yn glir bod 66% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cael ei rannu fel a ganlyn: 36% yn yr ysgolion cynradd a 30% yn yr ysgolion uwchradd. O'r ffigurau hyn gallwn weld bod 50% o'r holl ddisgyblion yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae mwy na 95% o'r disgyblion hyn yn dweud eu bod o grwpiau ethnig gwyn ac mae'r tabl yn dangos cenedligrwydd y disgyblion mewn ffigurau a chanrannau.

Gall plant a phobl ifanc anabl fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd a dewisiadau o ran seibiant byr, fel y ddarpariaeth ar ôl ysgol yn Heol Goffa a Chanolfan Elfed. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn cynnig cynlluniau gwyliau. Mae grwpiau bach arbenigol wedi cael eu sefydlu megis saethyddiaeth a gweithgareddau anturus yn yr awyr agored. Hefyd cafwyd hyfforddiant helaeth ynghylch anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac mae amrywiaeth mawr o sefydliadau wedi dod yn 'ymwybodol o awtistiaeth' ac mae aelodau o'r cynllun ar y wefan genedlaethol gwybodaeth am anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. At hynny, mae amrywiaeth mawr o adnoddau wedi cael eu datblygu i helpu i gefnogi rhieni a gofalwyr e.e. DVD gwybodaeth a chyngor. Mae prosiectau wedi cael eu datblygu hefyd i blant a phobl ifanc sydd ag anawsterau â chyfathrebu cymdeithasol. Mae Cydgysylltydd Cynhwysiant wedi cael ei benodi fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Ei rôl yw hybu'r agenda cynhwysiant ar draws y rhaglen a chanfod meysydd lle mae angen gwella e.e. anghenion o ran hyfforddiant.

Mae gan Bobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, sefydliad i rieni ag anabledau dysgu, ddau grŵp sydd wedi'u sefydlu yn y sir. Hefyd mae Cynghorydd Teuluoedd Mencap yn cael ei gomisiynu i gynorthwyo rhieni a gofalwyr ac mae hyn yn cynnwys cynhyrchu a dosbarthu cylchlythyrau, rheoli gwefan HAIPAC, tudalen ar Facebook a chyfrif Twitter. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu datblygu a'u hwylyso gyda rhieni plant anabl. Cynhelir boreau coffi i Rien i Gofalwyr ledled y sir a defnyddir y rhain hefyd fel sesiynau allestyn gwybodaeth.

Mae gan Addysg amrywiaeth o gynghorwyr arbenigol a seicolegwyr addysg sy'n gweithio gydag ysgolion, rhieni, plant a phobl ifanc i fodloni angen addysgol dynodedig penodol y plentyn. Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn bartner allweddol gyda Llywodraeth Cymru wrth helpu i lywio'r diwygiadau addysg statudol newydd.

Mae nifer o sesiynau hyfforddi, gweithdai a chynadleddau ar gam-drin domestig wedi cael eu darparu yn ystod 2014-15 i amrywiaeth o aelodau'r staff gan asiantaethau ledled y sir.

Mae'r rhain wedi cynnwys cynrychiolwyr o:

- Dechrau'n Deg
- Gwasanaethau i Oedolion
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Staff Prosiect y Sbectrwm
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Is-adran Tai Cyngor Sir Gaerfyrddin

Bydd hyn yn gwella sgiliau wrth adnabod cam-drin domestig, gan helpu i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau i'r Heddlu a darparwyr gwasanaethau arbenigol.

Darparwyd cymorth i nifer o gynadleddau gan gynnwys y canlynol:

- Cynhadledd Amlasiantaethol y Gwasanaethau Plant ar Gam-drin Domestig i ymarferwyr
- Cynhadledd Ranbarthol/Amlasiantaethol ar Gam-drin Domestig i ymarferwyr
- Cynhadledd Ranbarthol Dyfed-Powys ar Ddiogelu Oedolion a Cham-drin Domestig i arweinwyr a rheolwyr
- Cynhadledd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar Gam-drin Domestig i Sefydliad y Merched, y Soroptimyddion, yr Heddlu a'r trydydd sector
- Cynhadledd i bobl ifanc a gynhaliwyd gan Fforwm leuenctid Sir Gaerfyrddin. Cafodd y thema, 'Cam-drin Domestig a Pherthnasoedd Iach', ei dewis gan y bobl ifanc eu hunain a daeth mwy na 150 o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed o bob cwr o'r sir i'r gynhadledd.


Mae nifer yr asiantaethau sy'n gweithio o'r siop un stop neu'n ei defnyddio wedi cynyddu ac erbyn hyn mae'n cynnwys: Fforwm Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin (Cydgysylltydd Cam-drin Domestig, Cynghorwyr Annibynnol a Gweithwyr Cymorth Cam-drin Domestig), Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Hafan Cymru, SEREN, BAWSO a Gweithiwr Trosedd Casineb o Gymorth i Ddiodefwyr.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi ei bolisi gweithle ar gyfer Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith, ac mae llawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus wedi gwneud yr un peth.

Mae nifer y Digwyddiadau o Gamdriniaeth Ddomestig wedi codi o flwyddyn i flwyddyn ers 2012-13 ond mae nifer yr arestiadau wedi aros yn gymharol sefydlog. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o hyder o ran rhoi gwybod am gam-drin domestig ar y cyd gydag arferion cofnodi mwy trylwyr. Gan nad yw'r nifer o arestiadau wedi amrywio'n sylweddol, byddai hyn yn awgrymu, lle mae yna bŵer arestio, y gwneir arestiadau. Byddai hyn yn awgrymu bod y newid yn nifer y Digwyddiadau o Gamdriniaeth Ddomestig a gofnodwyd wedi bod am ddigwyddiadau lefel is na fyddent yn golygu y caiff trosedd ei chofnodi ac felly na fyddai ganddynt bŵer arestio.

Mae **Tlodi Gwasanaethau** yn ymwneud â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi tlawd ac sy'n cael anawsterau wrth gael a manteisio ar wasanaethau. Mae hyn yn aml oherwydd nad oes gwybodaeth ar gael am wasanaethau, neu pan mae ar gael, mae ar ffurfiau nad ydynt yn hawdd eu deall neu eu cael. Mae'n anodd mesur tlodi gwasanaethau oherwydd nid yw'n cyfateb i ba mor agos yw gwasanaethau yn ddaearyddol.

Mae **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc 2014)** wedi'i seilio ar ardaloedd bach, sef Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). (Mae ACEHI yn unedau adrodd ystadegol a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sydd â phoblogaeth o 1,000 o leiaf (cyfartaledd 1,600)). Mae Malc 2014 yn cynnwys wyth maes: Incwm; Cyflogaeth; Iechyd; Addysg; Mynediad i Wasanaethau; Diogelwch Cymunedol; Amgylchedd Ffisegol a Thai ac yn cael ei gyhoeddi ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, y mae 112 ohonynt yn Sir Gaerfyrddin.



Mae'r tabl isod yn dangos y ganran o'n ACEHI sydd yn y ganran fwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan. Mae'r ffigurau hyn yn dangos yn glir bod 53% o'n ACEHI yn y 50% fwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan a bod 4% ohonynt yn y 10% fwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan.

Awdurdod Lleol	Nifer yr ACEHI	% o'r ACEHI yn y 10% fwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan	% o'r ACEHI yn y 20% fwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan	% o'r ACEHI yn y 30% fwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan	% o'r ACEHI yn y 50% fwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan
Sir Gaerfyrddin	112	4	11	22	53

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (cyhoeddwyd Awst 2011), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Nodyn: ACEHI yn y drefn 1-112 (Sir Gaerfyrddin), **1-1909 (Cymru)**.